# Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor

# Polisi Masnach Deg

Enillodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor a Phrifysgol Bangor (y Brifysgol) Statws Prifysgol Masnach Deg fis Medi 2009. Rydym yn ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo gwerthoedd Masnach Deg trwy'r camau canlynol:

**1. Cyfarfodydd Grŵp Llywio Masnach Deg**

Bydd Grŵp Llywio Masnach Deg y Brifysgol yn cwrdd bob semester ac yn gweithio i wella statws Masnach Deg a'i hybu yn y Brifysgol.
Dyma aelodau'r Grŵp Llywio:-

- Pennaeth Arlwyo (Cadeirydd).
- Pennaeth Bywyd Preswyl
- Aelod o Bwyllgor Gweithredu Undeb y Myfyrwyr.
- Aelod o staff Undeb y Myfyrwyr

Gellir cyfethol eraill i'r grŵp yn ôl yr angen. Bydd cadeirydd y grŵp yn adrodd i 'grŵp gweithredu cynaliadwyedd y Brifysgol', a bydd cynrychiolydd/cynrychiolwyr y myfyrwyr yn hysbysu 'grŵp gweithredu Cynaliadwyedd Myfyrwyr' ynghylch ei gynnydd.

**2. Sicrhau bod nwyddau Masnach Deg ar gael**

Ar hyn o bryd mae nwyddau Masnach Deg ar gael i'w prynu ym mhob siop ar y campws ac fe'u defnyddir yng nghaffis, bariau a bwytai'r Brifysgol ar y campws. Rydym yn ymrwymo i gynnig mwy o gynhyrchion Masnach Deg lle bo modd.

**3. Darparu nwyddau Masnach Deg yng Nghyfarfodydd y Brifysgol**

Caiff nwyddau Masnach Deg (er enghraifft te, coffi, a siwgrau) eu gweini ym mhob un o gyfarfodydd y Brifysgol. Bydd y Grŵp Llywio'n annog diodydd Masnach Deg ar gael ym mhob swyddfa weinyddol.

**4. Mynd ati i Hyrwyddo Nwyddau Masnach Deg**

Byddwn yn hyrwyddo cynhyrchion Masnach Deg i'r staff a'r myfyrwyr a'r nod yw cynyddu'r defnydd a chodi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â Masnach Deg. Bydd y Brifysgol yn cymryd rhan mewn pythefnos Masnach Deg bob blwyddyn.

**5. Cynnal Statws Masnach Deg**

Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cydlynu'r holl wybodaeth angenrheidiol. Bydd y Cadeirydd yn paratoi ac yn cyflwyno ein cais i adnewyddu statws Masnach Deg.

*Llofnod:*

**Angela Church, Pennaeth Arlwyo**

*Dyddiad:* 24/09/2024

*Llofnod:*

**Nida Ambreen, Llywydd Undeb y Myfyrwyr**

Dyddiad: 24/09/2024